











# Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)

**Mae Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy wedi derbyn £4.9miliwn gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.**

Croesawyd ceisiadau gan sefydliadau cymunedol i gyflawni prosiectau a fyddai'n mynd i'r afael ag angen lleol.

Gyda'i gilydd, dyfarnwyd cyllid i 70 o brosiectau yng Nghonwy, ac mae Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cefnogi adfywiad ein cymunedau lleol drwy helpu'r grwpiau, y sefydliadau cyhoeddus a'r mentrau lleol hyn i arwain wrth wella eu hardaloedd lleol yn amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Arweiniwyd y Gronfa Allweddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddarparu grantiau i alluogi dosbarthiad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar lefel leol, ar gyfer prosiectau llai a nodwyd ar lefel gymunedol.

*"Mae'r Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol wedi ei gwneud yn bosibl i'r cyllid gael ei ddosbarthu ar draws y sir i sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa o UKSPF.*

*Rwyf yn falch iawn bod y prosiectau hyn wedi cael effaith uniongyrchol yng nghalon ein trefi a'n pentrefi - ac mae'r cyfan wedi dwyn ffrwyth drwy weithio yn ein cymunedau, a gyda nhw."*

**Y Cynghorydd Nigel Smith**
**Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**




Nod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw gwella balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU, drwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol, a phobl a sgiliau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus.cy**

This document is also available in English.

# Lleoliadau'r prosiectau

Mae Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy wedi cefnogi prosiectau ledled y sir. Gweler manylion rai ohonynt isod.




1 **Meddwl Ymlaen** - Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Penmaenmawr

2 **Penodau Newydd** - Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan (Llanfairfechan, Bae Cinmel, Uwchaled)

3 **Dyfodol y Garrog** - Ardal Weinidogaeth Bro Gwydir

4 **Clocswyr Conwy** (ledled y sir)

5 **Prosiect Coffa Mynwent Bryn y Bedd** - Cyngor Cymuned Dolwyddelan

6 **Adfer, Adfywio, Adnewyddu Isadeiledd Llandudno** - Cyfeillion Penmorfa

7 **Cynllun Balchder Cymunedol** - Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

8 **Prosiect Man Chwarae Gwag Owain Glyndŵr** - Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel

9 **Mannau Chwarae ar draws y Sir** - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynghorau Tref a Chymuned, a grwpiau gwirfoddolwyr (ledled y sir)

# 1 **Astudiaeth Achos: Meddwl Ymlaen**

## Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Penmaenmawr

Prosiect i drawsnewid rhaglenni a gynhelir gan Amgueddfa Penmaenmawr i ymgysylltu â chymunedau lleol, ac i greu menter gelfyddydol newydd yn defnyddio casgliad yr amgueddfa.

Darparu cyfleoedd i artistiaid lleol greu gwaith unigryw i hyrwyddo'r sir; dylunio cyfres o adnoddau a deunyddiau proffesiynol i weithio gydag ysgolion a chymunedau i wella eu gwybodaeth am dreftadaeth leol a'r dirwedd naturiol; ac ailwampio adeilad yr amgueddfa i wella hygyrchedd a chadw gwres i mewn.

*"Mae'r gefnogaeth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi trawsnewid Amgueddfa Penmaenmawr. Mae'r cyllid wedi cefnogi'r rhaglen weithgareddau fwyaf i ni ei chynnal i blant a theuluoedd erioed, gan arwain at filoedd o bobl ym Mhenmaenmawr a Chonwy wledig yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau celf a threftadaeth drwy gydol 2024."*









2

# Astudiaeth Achos: Penodau Newydd

## Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan

Prosiect i drawsnewid tair llyfrgell gymunedol drwy waith adnewyddu ac ymgysylltu, gan gryfhau eu rôl fel canolbwynt cymunedol ac adfywio'r gwasanaethau i ymateb i'r angen lleol. Gwaith adnewyddu yn llyfrgelloedd Bae Cinmel, Uwchaled a Llanfairfechan, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Llyfrgell Conwy, i greu gofodau hygyrch a chroesawgar sy'n canolbwyntio ar y darllenydd, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr a chryfhau lles cymunedol. Yn ogystal â gwella isadeiledd ffisegol y llyfrgelloedd hyn, mae'r prosiect hefyd wedi cyflwyno dulliau arloesol o ran marchnata cymunedol ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Mae fframwaith gwirfoddoli newydd wedi cael ei sefydlu, gan alluogi unigolion i ddatblygu eu sgiliau a chyfrannu at ddarparu ac ehangu gwasanaethau llyfrgelloedd.

***Bae Cinmel:*** *"Mae ein cwsmeriaid wrth eu boddau gydag edrychiad newydd y llyfrgell. Mae'r adborth i'r Ymddiriedolwyr wedi bod yn gadarnhaol, gan wybod y byddwn yn gallu cynnal y llyfrgell am flynyddoedd i ddod."*

***Uwchaled:*** *"Mae Llyfrgell Uwchaled wedi'i thrawsnewid yn gyfan gwbl yn dilyn dyfarniad y grant yma… Dywedodd un ymwelydd: "Mae'n edrych fel lle cwbl wahanol!""*

***Llanfairfechan:*** *"Rydym wrth ein boddau gyda'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn llyfrgell Llanfairfechan. Mae ein contractwyr wedi gwneud gwaith ardderchog o ran mynd i'r afael â'r problemau lleithder yn yr hen adeilad carreg, gan ail-addurno a gosod carped newydd."*




Llyfrgell Llanfairfechan





Llyfrgell Bae Cinmel

## 3 Astudiaeth Achos: Dyfodol y Garrog

Ardal Weinidogaeth Bro Gwydir

Prosiect i archwilio hunaniaeth arbennig y pentref, wedi'i ysgogi gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nolgarrog. Ehangu mynediad i raglen o ddigwyddiadau creadigol a chyfleoedd dysgu drwy greu gofod newydd y gellir ei ddefnyddio. Bydd y prosiect yn parhau â'r rhaglen waith a wnaed i ailadeiladu darpariaeth gymunedol drwy'r pentref a thu hwnt.

*"Mae wedi bod yn gynllun eang o ddigwyddiadau - y mwyaf ohonynt oedd yr ŵyl. Llwyddodd i ddod â'r gymuned ynghyd ac roedd wir yn ardderchog."*

*"Cymaint o wahanol agweddau ar y prosiect, cymaint o wahanol elfennau. Y thema fawr drwy gydol y prosiect oedd cynaliadwyedd, etifeddiaeth a'r dyfodol ac, am wn i, yr ardd yw rhodd fawr y prosiect - yr ardd ger yr eglwys sy'n llawn cynnyrch bwytadwy."*

*"Mae'r ardd yn ofod pwrpasol i'r gymuned."*

*"Bydd yn ganolbwynt cymdeithasol, gan annog dysgu a rhannu rhwng cenedlaethau. Bydd gweld sut y bydd hyn yn datblygu yn arbennig iawn."*








# 4 Astudiaeth Achos: Clocswyr Conwy

Addysgu pobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â'r grefft o glocsio. Mae'r grŵp yn cynnig ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau i bobl ifanc eu mwynhau, ac yn hyrwyddo diwylliant drwy gystadlu a pherfformio mewn cystadlaethau a digwyddiadau yng Nghymru a thu hwnt.

*"Diolch i'r cyllid gan Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy, mae Clocswyr Conwy wedi llwyddo i gyrraedd cerrig milltir arwyddocaol.*

*Rydym wedi gallu cyrraedd mwy o bobl ifanc yng Nghonwy, rydym wedi gwella safon ein perfformiadau a'n hadnoddau, wedi prynu eitemau hanfodol megis gwisgoedd traddodiadol a chlocsiau ar gyfer y grwpiau amrywiol.*

*Mae'r gefnogaeth hon wedi sicrhau dyfodol cryf i'n grŵp, yn ogystal â chyfrannu at hir oes dawnsio gwerin a chlocsio traddodiadol yng Nghymru."*







# 5 Astudiaeth Achos: Prosiect Coffa Mynwent Bryn y Bedd

Cyngor Cymuned Dolwyddelan

Trawsnewid hen adeilad yn adeilad croesawgar ar gyfer ymgynnull, gyda lôn balmantog, llwybr hygyrch i'r adeilad, a gwaith atgyweirio i'r wal derfyn. Mae'r adeilad yn awr yn cynnwys wal wybodaeth i helpu ymwelwyr wrth iddynt olrhain eu coeden deulu.

*"Mae'r Adeilad Coffa Cwt Hers ym Mynwent Bryn y Bedd yn darparu lle heddychlon a llonydd i alarwyr, a'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn hanes cymunedol, gan gynnig mynediad rhwydd i bawb. Mae llwybr a safle newydd ar gyfer gwasgaru llwch, a lôn darmac wedi cael eu croesawu gan y gymuned, yn ogystal â lloches gyfforddus i alarwyr, yr henoed yn enwedig, gael eistedd a chysgodi rhag tywydd garw."*








6

# Astudiaeth Achos: Adfer, Adfywio, Adnewyddu Isadeiledd Llandudno

Cyfeillion Penmorfa

Prosiect i wella mannau agored cyhoeddus ar draws Llandudno. Gwella mynediad i Barc y Frenhines, adfer dau fan chwarae ac ailwampio Lloches Tram Penmorfa. Darparu gwell amwynderau a chyfleoedd gwirfoddoli i'r gymuned leol, ac edrychiad a theimlad y dref i ymwelwyr - gan sicrhau bod eu disgwyliadau yn cael eu bodloni o ran Rheoli Cyrchfan.

*"Drwy'r prosiect rydym wedi dysgu llawer iawn amdanom ni ein hunain, wedi ennill sgiliau newydd a gwneud ffrindiau oes a fydd o fudd i'n sefydliadau a'n tref.*

*Bydd clywed plant yn chwerthin ar y caeau chwarae a gweld pobl yn mwynhau'r Lloches Tram yn wobr hael. Ond, yn sicr, ein cysylltiadau cymunedol yw budd mwyaf y prosiect."*



Parc Ochr y Penrhyn



Parc y Frenhines, Craig-y-Don



Lloches Tram Penmorfa

# 7 Astudiaeth Achos: Cynllun Balchder Cymunedol

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cynllun Balchder Cymunedol newydd i ehangu a gwella'r gwaith cymunedol llwyddiannus a wnaed gan wirfoddolwyr. Mae'r cynllun yn cynnwys tasgau cynnal a chadw yn y gymuned, cefnogi gwirfoddolwyr mewn mentrau balchder cymunedol; a gwella'r amwynderau gweledol a ffisegol yn y gymuned. Gwneud Betws-y-Coed yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag o - gan leihau effaith y nifer uchel o ymwelwyr ar y pentref, sy'n boblogaidd iawn ymhlith twristiaid ac ymwelwyr lleol.

*"Mae'r Cyngor Cymuned yn falch o gyflawniadau'r prosiect hwn ac yn ddiolchgar i bawb sydd wedi chwarae rhan i wneud Betws-y-Coed yn gymuned sy'n cael ei hedrych ar ei hôl.*

*Mae Cae Llan yn lân ac wedi'i ddiweddaru, tra'n cynnal ei bwrpas fel cae hamdden cymunedol a man diogel i'w fwynhau. Mae cael gwared ar lystyfiant sydd wedi gordyfu o fewn ac o amgylch y pentref wedi caniatáu i waliau cerrig a nodweddion traddodiadol ddod i'r amlwg unwaith eto, yn ogystal â'i gwneud yn fwy diogel i gerdded ar ochrau ffyrdd a phalmentydd. Mae clywed y gair "boddhaol" yn cael ei ddefnyddio ar ddiwedd diwrnod caled o waith wrth gamu'n ôl i edrych ar bopeth sydd wedi cael ei gyflawni ar y diwrnod hwnnw yn arwydd o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni yma.*

*Cyn cwblhau'r gwaith ar y gwesty, roeddem yn aml yn clywed geiriau megis "cyflwr gwael" yn cael eu defnyddio gan ymwelwyr i ddisgrifio'r safle, ond maent yn ei ganmol rŵan.*

*Ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol a pharhau gyda'r gwaith i gynnal balchder y gymuned yn y pentref."*





Y Rhaeadr Ewynnol - Cyn y gwaith adnewyddu



Y Rhaeadr Ewynnol - Ar ôl y gwaith adnewyddu

8

# Astudiaeth Achos: Prosiect Man Chwarae Gwag Owain Glyndŵr

Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel

Newid man chwarae gwag yng nghanol ystâd dai yn ardd gymunedol/rhandir a pherllan ar gyfer y gymuned gyfan. Ail-agor y man agored cyhoeddus hwn i ddarparu adnodd sydd wir ei angen ym Mae Cinmel.

*"Mae Gardd Gymunedol Owain Glyndŵr wedi darparu man gwyrdd i breswylwyr lleol sy'n annog iechyd a lles drwy fynediad at gynnyrch ffres (llysiau, ffrwythau a pherlysiau), gweithgarwch corfforol drwy arddio a budd i iechyd meddwl drwy dreulio amser yng nghanol natur.*

*Mae'r ardd yn adeiladu cymuned gref drwy annog gwaith tîm a rhyngweithio cymdeithasol gyda phobl o bob oed, ac yn creu gofod a rennir sy'n meithrin teimlad o berthyn.*

*Rydym wedi defnyddio'r ardd i gynnal diwrnod garddio i blant yn ddiweddar ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, gan eu haddysgu am arddio, cynaliadwyedd a maetheg. Mae'r ardd hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgu am ecosystemau, compostio a bioamrywiaeth, sy'n gwella sgiliau defnyddwyr yr ardd.*

*Yn y dyfodol, rydym yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiadau, gweithdai a diwrnodau i wirfoddolwyr, gan wneud yr ardd yn ofod cynhwysol a chroesawgar i unigolion o bob oed a gallu i fwynhau a dysgu sgiliau newydd."*







# 9 **Astudiaeth Achos: Mannau Chwarae ar draws y Sir**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynghorau Tref a Chymuned, a grwpiau gwirfoddolwyr

Mae 43 o fannau chwarae wedi cael eu hailwampio yn y sir. Mae'r gwaith gwella wedi cynnwys gosod 2,600 medr sgwâr o arwyneb diogelwch newydd; gwella draenio; gosod giatiau newydd; ac ail baentio a marcio llinellau newydd ar 14 Llecyn Gemau Amlddefnydd.

*"Mae cydweithio wedi bod yn allweddol i wneud y mwyaf o'r cynllun. Mae gweithio gyda chynghorau tref a chymuned a grwpiau gwirfoddolwyr wedi gwneud y mwyaf o'r buddion i breswylwyr lleol. Rwyf yn falch iawn bod y prosiect hwn i uwchraddio cyfleusterau chwarae wedi cael effaith uniongyrchol yng nghalon ein cymunedau - ac mae'r cyfan wedi dwyn ffrwyth drwy weithio yn ein cymunedau, a gyda nhw."*







I ddysgu mwy am Gronfa Ffyniant Gyffredin
y DU yng Nghonwy, ewch i:

**www.conwy.gov.uk/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Funded by
UK Government